Dydd Llun 23ain Mawrth 2026

Annwyl Riant/Gofalwr,

**Paratoi ar gyfer arholiadau TGAU**

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am y trefniadau ar gyfer cyfnod adolygu i ddysgwyr Sir Benfro yn ystod eu harholiadau TGAU yr haf hwn. Bydd y trefniadau hyn yn berthnasol i holl ysgolion Sir Benfro.

Mae arholiadau TGAU yn dechrau ar Ddydd Iau 7fed Mai. Mae hyn yn ychydig dros bythefnos llawn cyn dechrau hanner tymor ar ddydd Gwener 22ain Mai.

Yn ystod y bythefnos hyn, a phan nad ydynt yn sefyll arholiadau, bydd dysgwyr yn parhau i fynychu'r ysgol lle byddant yn derbyn cyfres o weithdai adolygu yn ogystal â'u gwersi arferol. Bydd sesiynau adolygu wedi'u targedu hefyd yn union cyn sefyll arholiadau pan fo hynny'n bosib.

O hanner tymor ymlaen, yn dechrau dydd Llun 1af Mehefin, ac eithrio rhai diwrnodau adolygu, bydd myfyrwyr yn cael gweithio o adref rhwng arholiadau.

Er mwyn eu cefnogi gyda'u paratoadau, gan gynnwys strategaethau i adolygu'n effeithiol, efallai y bydd dysgwyr am ymweld â'r dudalen we 'lefel-nesa' ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/lefel-nesa-cymru.

Hoffem eich hysbysu hefyd bod y cyrff dyfarnu wedi dynodi **dydd Mercher 24ain Mehefin 2026 yn 'ddiwrnod wrth gefn – bore a phrynhawn' ar gyfer arholiadau.**
Mae dynodi 'diwrnod wrth gefn' o fewn yr amserlen arholiadau gyffredin yn digwydd os bydd aflonyddwch cenedlaethol neu leol sylweddol i arholiadau yn y Deyrnas Unedig.
**Rhaid i ymgeiswyr bod ar gael tan ddydd Mercher 24ain Mehefin 2026 os bydd angen i gorff dyfarnu ddefnyddio'r cynllun wrth gefn.**

Diolch am eich cydweithrediad.

Yr eiddoch yn gywir,

Pennaeth